EFFAITH COVID-19 AR YSTADEGAU SWYDDOGOL

Mae ystadegwyr Cymwysterau Cymru yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi ystadegau swyddogol er mwyn ein helpu ni, cyrff dyfarnu a'r cyhoedd i wneud penderfyniadau cytbwys. Mae'r coronafeirws (COVID-19) yn her fawr i bob un ohonom, ac rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr mewn cyrff dyfarnu a rheoleiddio eraill ar draws y DU i ymateb i effeithiau uniongyrchol a hirdymor y pandemig hwn ar ein cymdeithas a'n system addysg.

Golyga hyn y bydd yn rhaid i ni newid ein dulliau gweithredu arferol, er mwyn sicrhau y gallwn ymateb i'r argyfwng hwn yn ogystal â darparu'r wybodaeth angenrheidiol pan fo'i hangen fwyaf. Hefyd, rhaid i ni ystyried yr hyn sy'n iawn ac yn briodol i ni ofyn i'n hymatebwyr a'n darparwyr data ei gyflwyno i ni ar hyn o bryd, o gofio'r pwysau sydd ar staff a meysydd allweddol. Rydym wedi gwneud, ac yn parhau i wneud, penderfyniadau brys o ran pa gasgliadau data y gellir eu lleihau, eu gohirio, eu stopio dros dro neu, mewn ambell achos, eu canslo.

Mae'r newidiadau i'n gwaith a'r effaith ar ein casgliadau data yn golygu y bydd yn rhaid i ni, o bosibl, leihau cwmpas, gohirio neu ganslo'r gwaith o gynhyrchu rhai o'n hystadegau. Fe allai hyn gael effaith hefyd ar ansawdd rhai o'n hystadegau eraill, o ran cywirdeb, cymaroldeb hanesyddol, neu lefel y manylion a fydd ar gael, fel llai o esboniadau neu ddadansoddiadau.

Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud fesul achos, gan roi blaenoriaeth i'r hyn a fydd yn berthnasol i'r sefyllfa ar y pryd, a byddwn yn agored ac yn dryloyw o ran y penderfyniadau a wneir a'r effeithiau posibl ar ein hystadegau a'n hymchwil. Byddwn yn cyhoeddi mwy am hyn yn ystod yr wythnosau nesaf, wrth i ni wneud penderfyniadau.

Drwy gydol y broses hon, byddwn yn parhau i gael ein harwain gan y Cod Ymarfer[1] sy'n berthnasol i gyhoeddi ystadegau swyddogol, sydd o werth cyhoeddus, o ansawdd uchel ac y gellir ymddiried ynddynt.

Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am ein hallbynnau cynlluniedig neu ein gohiriadau yn parhau i fod ar gael ar ein calendr datganiadau ni[2] ac ar galendr datganiadau Llywodraeth Cymru[3]. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru[4] wedi cyhoeddi datganiad yn ymwneud â'i dull o ymdrin â gwaith ystadegol yn ystod y cyfnod hwn, a hefyd mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau[5] wedi cyhoeddi datganiad yn ymwneud â'i dull o reoleiddio ein gwaith ystadegol ni yn ystod y cyfnod hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r tîm Ystadegau ar ystadegau@cymwysteraucymru.org.

[1] https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/
[2] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/cyhoeddiadau-sydd-i-ddod/
[3] https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil/i-ddod
[4] https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2020/03/23/diweddariad-y-prif-ystadegydd-covid-19-a-chynhyrchu-ystadegau-ac-ymchwil-gymdeithasol/
[5] https://www.statisticsauthority.gov.uk/osr/what-we-do/assessment/covid-19-changes-to-statistics/

Tom Anderson

Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau